Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Rheoliadau newydd gorchuddion wyneb wedi'w cyflwyno

O heddiw ymlaen (28 Chwefror 2022), ni fydd yn ofynnol yn gyfreithiol bellach i bobl wisgo gorchuddion wyneb mewn amrywiaeth o lefydd o dan do, gan gynnwys sinemâu, theatrau, canolfannau cymunedol, amgueddfeydd a champfeydd. Bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i oedolion a phlant sy'n 11 oed ac yn hŷn, os nad ydynt wedi'u heithrio, mewn siopau, busnesau trin gwallt a harddwch, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn lleoliadau iechyd a gofal. Mae mwy o wybodaeth yn:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-2020-1

## CYFLE: Dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy roi hwb i wario'n lleol – #PethauBychain #DyddGŵylDewi #PrynuLleol #CefnogiLleol

Mae Dydd Gŵyl Dewi yn gyfle gwych i annog trigolion ac ymwelwyr i brynu'n lleol. Fel rhan o'u hymgyrch prynu'n lleol dros y gaeaf, mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau pecyn adnoddau yn cynnwys copi, fidios, GIFs a logo. Lawrlwythwch nhw trwy fynd i:

https://bit.ly/3C8cIEI

Gallwch hefyd ledaenu'r neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal
- Twitter https://bit.ly/twitterprynulleolgwynedd
- Instagram https://www.instagram.com/prynulleolgwynedd/

(Bydd yr ymgyrch gaeaf yn rhedeg tan y Pasg. I gymryd rhan, cysylltwch â: twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru)

Mae ymgyrch bwyd a diod Cymreig Llywodraeth Cymru – #CaruCymruCaruBlas – hefyd wedi rhyddhau pecyn cymorth, sydd ar gael o:

https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/CaruCymruCaruBlas

## RECRIWTIO: Ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd

Nodyn i'ch atgoffa y bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – yn

cynnal ffeiriau swyddi ar gyfer pob sector ar draws Gwynedd yn ystod Mawrth ac Ebrill, gyda'r cyntaf i'w chynnal yn Bala Lake Hotel, Bala, ar 9 Mawrth 2022 (10:00am-2:00pm) a Copa, Caernarfon ar 10 Mawrth 2022, (10:00am–2:00pm) – gyda MÔN CF. Bydd ffeiriau hefyd yn cael eu cynnal yn Nolgellau, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Thywyn (dyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau).

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cynhelir y ffair swyddi olaf ar gyfer y sector lletygarwch Dydd Mercher yma, 2 Mawrth 2022, (10:00am-3:00pm), yn VENU, Pwllheli. Cafodd nifer o swyddi gwag eu llenwi yn y fan a'r lle yn y ffeiriau swyddi ar gyfer y sector lletygarwch a gynhaliwyd yn gynharach y mis yma, gyda dros 110 o ymgeiswyr am waith a 30 o fusnesau lletygarwch yn mynychu.

Gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

## ARIANNU: Cronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref Busnes Cymru

Mae Cronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref Busnes Cymru yn parhau i fod ar gael ym Mangor i gefnogi busnesau newydd yng nghanol y ddinas. Mae hyd at £10,000 ar gael fesul ymgeisydd, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-entrepreneuriaeth-canol-tref-busnes-cymru

## RHEOLIADAU: Cyfraith smygu yn newid o 1 Mawrth 2022 ymlaen

O 1 Mawrth 2022, bydd yn ofynnol i bob math o lety hunangynhwysol, gan gynnwys bythynnod, carafanau, cabanau gwyliau ac unrhyw lety gosod tymor byr arall, a phob gwesty, tŷ llety, tafarn ac ati fod yn ddi-fwg bob amser. Ar ôl y dyddiad yma, bydd yn drosedd i ysmygu mewn

unrhyw ardal tu fewn y safleoedd yma, a gellid rhoi dirwy. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:

https://llyw.cymru/deddfwriaeth-ddi-fwg-canllawiau-ar-y-newidiadau-o-fis-mawrth-2021-html

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru